CYNHADLEDD Y GYMDEITHAS 2012

gan T. Rhys Davies

Uchafbwynt pob blwyddyn i'r Gymdeithas ydi'r Gynhadledd. Ein cyrchfan eleni oedd Gwesty'r St George yn Llandudno.

Agorwyd y bore gan Siôn Griffiths, ein Llywydd. Wedi iddo groesawu'r cynadleddwyr, dros 25 mewn nifer, cyflwynodd y siaradwr cyntaf, sef Dr Gareth Roberts. Cawsom ddarlith ddiddorol a chynhwysfawr ganddo am anestheteg a'i pherthynas agos â deintyddiaeth, a chyfrannwyd nifer o gwestiynau ar ddiwedd yr anerchiad, ynghyd ag ambell atgof gan y deintyddion hŷn am yr hen drefn (a oedd yn ddigon brawychus o edrych yn ol!)

Dilynwyd hyn ar ôl panad gan Lesley Conran yn trafod maes dyrys eithriadol 'Amddiffyn Plant' – pwnc llosg yn sgîl yr hanes diweddar am Jimmy Saville. Cafwyd darlith a barhaodd am oddeutu awr a hynny'n cadarnhau bod y testun hwn yn haeddu rhagor o sylw ac, yn wir, fwy o amser i'w drafod yn drylwyr.

Wedi seibiant byr, ymunodd Jan, Ena a Gareth (sef gweddw, Mam a brawd y diweddar Bryn) gyda ni i wrando ar deyrnged i Bryn a draddodwyd gan Dr J. Elwyn Hughes. Bu Elwyn yn athro ar Bryn ac ymhen amser wedi hynny daeth y ddau'n gyfeillion agos ac, wrth reswm, cafwyd teyrged deimladwy a chynnes ganddo i Bryn. Mae'r Gymdeithas wedi bod yn anffodus yn colli dau gawr, sef Bryn ac Arfon, yn anterth eu dyddiau tra'n gwasanaethu ond dengys ffyniant y Gymdeithas nad oedd eu gwaith yn ofer. Bydded eu hesiampl yn ysbrydoliaeth i ni oll.

Yn ystod cinio, cafwyd cyfle i gymdeithasu a hefyd i gael sgwrs â Peter Ward, Prif Weithredwr y BDA yn Llundain, a oedd wedi ymuno â ni. Dangosodd Peter ddiddordeb mawr yn ein gwaith ac mewn araith fer ar ôl cinio cadarnhaodd gefnogaeth y BDA i ni fel Cymdeithas a bu'n ddigon caredig i'n canmol am ein llwyddiant yng Nghystadleuaeth Gwobrau'r Gymraeg mewn Iechyd 2012 (pan ddyfarnwyd i ni'r wobr gyntaf).

William Parry, Cadeirydd y prynhawn, a gyflwynodd y Parchedig Emlyn Richards i draddodi'r Ddarlith Goffa ar ôl cinio. Doedd y thema ddim yn hollol amlwg ond soniodd am gobanau *see-through*, blwmanj (sef *blancmange*!) a'r profiad o siopa yn Tesco, ymysg pethau eraill, mewn sgwrs grefftus a doniol a adawodd y gwrandawyr yn cofio neges y siaradwr ynghylch sut y mae profiad bore oes yn gadael ei stamp ar bersonoliaeth.

Un o'r prif weithgareddau pleserus sydd wedi datblygu'n gymharol ddiweddar yn y Gynhadledd yw cyflwyniadau gan ddeintyddion ifainc am eu prosiectau/profiadau yn ystod eu cofnod dan hyfforddiant. Cafwyd gwledd eto eleni gyda chyflwyniadau gan Elen Evans, Sioned Roberts a Prysor Aled, y ddwy gyntaf yn amlinellu strwythur yr hyfforddiant a gawsant hyd yma ac yna Prysor yn sôn am ei brofiadau deintyddol a phersonol yn Thailand gyda chriw o ddeintyddion ifainc.

Ysywaeth, mae'n rhaid nodi mai ychydig a arhosodd i'r Cyfarfod Blynyddol ond cafwyd trefn ar bethau, gan edrych ymlaen at weithgaredd 2013.

Cafodd y criw a oedd yn weddill ar gyfer y Cinio Nos eu diddanu gan Sion yn ei ffordd ddihafal ei hun; bu cryn sôn ganddo am fulod (neu 'doncis' yn nhafodiaith Aberystwyth) a chŵn oedd yn gallu siarad, etc. Os nad oeddech yno, mae'n beryg na wna'r uchod unrhyw synnwyr i chi ac efallai nad oedd hyd yn oed y rhai a oedd yno yn deall popeth a ddywedwyd. Ond cawsom hwyl eithriadol – a diolch i Siôn am yr ysgafnder difyr.

Credaf i'r Gynhadledd eleni fod yn llwyddiant ysgubol, yn bennaf oherwydd y gefnogaeth frwd gan ddeintyddion ifainc a sawl wyneb newydd a ddaeth i'n plith. Mor bwysig fydd parhau â'r brwdfrydedd hwn, gan edrych ymlaen at Gynhadledd ar y cyd â'r Gymdeithas Feddygol yng Nghaerdydd yn 2013 a hefyd y gweithgareddau eraill a gaiff eu trefnu. Gwyliwch y Wefan (a chyfrannwch ati).

Diolch i bawb a fu â rhan yn trefnu'r Gynhadledd.